# Datganiad Blynyddol Prifysgol Abertawe ar Uniondeb Ymchwil 2023-24

## Adran 1: Manylion cyswllt allweddol

| **Cwestiwn** | **Ymateb** |
|---|---|
| **1A. Enw'r sefydliad** | Prifysgol Abertawe |
| **1B. Math o sefydliad:**<br><br>**sefydliad addysg uwch/diwydiant/sefydliad sy'n cynnal ymchwil annibynnol/arall (rhowch fanylion)** | Sefydliad Addysg Uwch |
| **1C. Dyddiad cymeradwyo'r datganiad gan y corff llywodraethu (DD/MM/BB)** | 16 Hydref 2024 |
| **1D. Cyfeiriad gwe tudalen uniondeb ymchwil y sefydliad (os yw'n briodol)** | Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil – Prifysgol Abertawe |
| **1E. Enw uwch-aelod o'r staff i oruchwylio uniondeb ymchwil** | Enw: Yr Athro Helen Griffiths (Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil ac Arloesi) |
| | Cyfeiriad e-bost: pvcresearch@abertawe.ac.uk |
| **1F. Enw aelod o'r staff a fydd yn bwynt cyswllt cyntaf i unrhyw un sydd am gael rhagor o wybodaeth am faterion uniondeb ymchwil** | Enw: Mrs Anjana Choudhuri |
| | Cyfeiriad e-bost: researchintegrity@abertawe.ac.uk |

# Adran 2: Hyrwyddo safonau uchel o uniondeb ymchwil a diwylliant ymchwil cadarnhaol Disgrifiad o gamau gweithredu a gymerwyd a gweithgareddau a gynhaliwyd

## 2A. Disgrifiad o systemau a diwylliant presennol

- **Polisïau a systemau:** mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i greu diwylliant o arfer da mewn ymchwil a chynnal y safonau uchaf o drylwyredd ac uniondeb ym mhob agwedd ar ein hymchwil. Mae fframwaith polisi Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol yn amlinellu ymagwedd y sefydliad at uniondeb ymchwil ac yn darparu'r polisïau sy'n tanategu moeseg a llywodraethu ymchwil. Caiff y fframwaith hwn ei adolygu'n flynyddol a gwneir diwygiadau i bolisïau presennol yn ogystal â rhai newydd sy'n cael eu llunio yn y flwyddyn academaidd. Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno system ar-lein i asesu a chymeradwyo pob cais moeseg ymchwil. Mae'r system yn rhannu risgiau ymchwil yn gategorïau risg isel, canolig ac uchel. Mae'r Brifysgol yn disgwyl sefydlu system i fonitro'r holl ymchwil risg uchel yn y dyfodol. Sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen ag aelodau o bob rhan o'r brifysgol i lunio arweiniad ar ddefnyddio AI Cynhyrchiol mewn Ymchwil ac Arloesi. Defnyddir gwybodaeth a geir o'r grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddrafftio'r arweiniad.
- **Cyfathrebu ac ymgysylltu:** ar ben darparu mynediad at hyfforddiant ar-lein am ddim ar uniondeb ymchwil, bu'r Brifysgol yn hyrwyddo uniondeb ymchwil yn 2023-24 drwy nifer o seminarau/weminarau mewnol ar 'Arfer Da mewn Ymchwil ac Atal Camymddygiad mewn Ymchwil'; 'Asesu a chynnal ymchwil sy'n sensitif o ran diogelwch yn effeithiol'; 'Llywodraethu ac Ymarfer Clinigol Da', 'Gweithio gyda Meinweoedd Dynol' etc. Mae Rheolwr Uniondeb Ymchwil y Brifysgol yn cysylltu â chysylltau moeseg yn y Cyfadrannau er mwyn lledaenu ymhellach gyfathrebiadau a dderbynnir yn rheolaidd gan Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO), Pwyllgor Uniondeb Ymchwil y DU (UKCORI) ac Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI). Trefnir cyfathrebu am Ymchwil Ddibynnol ag aelodau'r Tîm Cydweithredu a Chynghori ar Ymchwil (RCAT) a chynhelir cyfarfodydd gyda nhw'n rheolaidd hefyd. Darperir hyfforddiant ar-lein am ddim ar Reoli Allforion gan y Gymdeithas Rheoli Allforion Addysg Uwch (HEECA) i staff sy'n ymgymryd ag ymchwil.
- **Diwylliant, datblygiad ac arweinyddiaeth:** darperir arweinyddiaeth yn y maes hwn gan y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) gyda chymorth y Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol (Ymchwil ac Arloesi) ac Arweinwyr

Moeseg y tair Cyfadran.

- **Monitro ac adrodd:** caiff uniondeb ymchwil ei fonitro gan Bwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol sydd â chyfrifoldeb trosfwaol ar ran y sefydliad. Mae is-bwyllgorau moeseg ac uniondeb y Cyfadrannau'n darparu adroddiad ysgrifenedig unwaith bob tymor i bwyllgor y Brifysgol. Mae pwyllgor y Brifysgol hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan feysydd eraill megis llywodraethu ymchwil, ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid (AWERB) a meinweoedd dynol. Mae unrhyw is-bwyllgorau a sefydlir i adolygu atgyfeiriadau at bwyllgor uniondeb ymchwil y brifysgol hefyd yn cyflwyno eu canfyddiadau i'r pwyllgor hwn.

## 2B. Newidiadau a datblygiadau yn ystod cyfnod yr adolygiad

**Polisïau, arferion, mentrau, hyfforddiant, datblygiadau newydd yn ystod 2023/24:**

1. System asesiadau moeseg ar-lein: Cyflwynwyd y system asesiadau moeseg ar-lein (Infonetica) i bob cyfadran yn y Brifysgol.
2. Polisïau a strategaethau newydd a diwygiedig:
    - Polisïau a strategaethau newydd a luniwyd: Rhai o'r polisïau a strategaethau newydd a luniwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24: polisi cyhoeddi ymchwil; cyfres o bolisïau ar seiberddiogelwch; strategaeth ddigidol y brifysgol, cynllun gweithredu diwylliant ymchwil.
    - Diwygiadau i hen ganllawiau a pholisïau: Diwygiwyd yr arweiniad ar adolygiadau moesegol a'r polisi ar ymdrin â honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion UKRI, UKCORI ac UKRIO.

3. Hyfforddiant: Cymerodd y Brifysgol ran yn y peilot ar gyfer hyfforddiant ar-lein newydd Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO). Darperir hyfforddiant ac arweiniad rheolaidd i staff ynghylch ymchwil sy'n sensitif o ran diogelwch, a chynhelir cronfa ddata/safle Teams ar gyfer yr holl ymchwil sy'n sensitif o ran diogelwch yn y Brifysgol.

4. Diwylliant ymchwil: Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i feithrin diwylliant ymchwil sy'n gynhwysol, yn agored ac yn gyfrifol. Rydym yn cynnal ymrwymiad ein sefydliad i ddarparu amgylchedd sy'n galluogi ein hymchwilwyr, ein cydweithwyr cymorth proffesiynol (galluogwyr ymchwil) a'n cydweithredwyr i gyflwyno a chynnal ymchwil ac arloesi ardderchog a chyfrifol. Ym mis Rhagfyr 2021, penododd y Brifysgol ei Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol cyntaf ar gyfer Diwylliant Ymchwil ac, ar ôl tair blynedd, olynwyd yr unigolyn hwn gan Ddirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol newydd ar gyfer Diwylliant Ymchwil. Cefnogir y Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol ar gyfer Diwylliant Ymchwil gan y Rheolwr Diwylliant Ymchwil. Mewn ymateb i adborth gan y gymuned a gasglwyd yn 2023, lluniwyd cynllun gweithredu diwylliant ymchwil lefel uchel sy'n cynnwys pum maes

ffocws craidd. Mae grŵp gweithredu diwylliant ymchwil wedi cael ei sefydlu â chyfrifoldeb am gyflawni'r cynllun gweithredu. Caiff cynnydd y cynllun gweithredu hwn ei fonitro gan y Pwyllgor Ymchwil, Arloesi ac Effaith (RIIC).

5. Ymchwil Ddibynadwy a Diogelwch Ymchwil: Mae'r Brifysgol yn codi ymwybyddiaeth ei hymchwilwyr o ofynion Ymchwil Ddibynadwy ac mae'n datblygu ei gweithdrefnau dilysrwydd dyladwy. Mae cynrychiolwyr o'r Tîm Cydweithredu a Chynghori ar Ymchwil (RCAT) wedi ymweld â'r Brifysgol nifer o weithiau yn ystod 2023-24 ac wedi cael sesiynau briffio gydag uwch-academyddion.  Gwnaed y modiwl ar-lein ar reoli allforion yn fodiwl hyfforddiant gorfodol ym maes hyfforddiant uniondeb ymchwil. Mae'r Gymdeithas Rheoli Allforion mewn Addysg Uwch (HEECA) yn cynnig mynediad i ymchwilwyr at yr hyfforddiant ar-lein ar ddiogelwch ymchwil a rheoli allforion.

6. Llywodraethu Ymchwil: Daeth y porth noddi llywodraethu ymchwil drwy system ar-lein Infonetica yn weithredol. Byddai pob prosiect noddi gofal iechyd am hyd y prosiect yn cael ei gefnogi drwy'r porth hwn. Gwnaeth ymweliadau monitro, sicrhau ansawdd a chymorth nawdd prosiect barhau drwy gydol 2023-24, a lluniodd Pwyllgor Goruchwylio Nawdd Prifysgol Abertawe bolisïau i arwain a chynorthwyo ymchwilwyr.

7. Meinweoedd Dynol:  Cafodd tudalennau gwe'r Brifysgol sy'n darparu gwybodaeth i ymchwilwyr am weithio gyda meinweoedd dynol eu diweddaru yn ystod y flwyddyn a chyhoeddwyd set newydd o Weithdrefnau Gweithredu Safonol yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA) i adlewyrchu gwahanu trwydded ymchwil yr HTA oddi wrth Fwrdd Bae Abertawe. Mae'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol hyn yn cydweddu â pholisïau Prifysgol Abertawe ac yn gwella cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol ac arweiniad yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA). Cafodd yr Adran Gwyddor Chwaraeon yn Adeilad Dwyreiniol Peirianneg ei pharatoi i'w chynnwys fel safle ategol newydd ar drwydded ymchwil yr HTA gan sicrhau ei bod yn gweithredu yn gyson â'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol craidd newydd ac arfer gorau. Darparwyd mewnbwn i ddatblygu tudalennau llywodraethu ymchwil a noddi'r system asesiad moesegol ar-lein i sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael i Bwyllgor Goruchwylio Nawdd Prifysgol Abertawe (SUSOC). Mae goruchwyliaeth gweithgareddau ymchwil sy'n cynnwys samplau meinweoedd dynol wedi gwella'n sylweddol yn sgîl mabwysiadu'r system ar-lein. Mae hyn wedi galluogi'r Swyddog Llywodraethu Meinweoedd Dynol i olrhain cyfranogiad unigolyn mewn ymchwil gyda meinweoedd dynol a monitro lle caiff samplau eu cadw. Cwblhawyd archwiliadau mewnol o'r holl gasgliadau trwyddedig ac ychwanegwyd casgliad newydd at y drwydded yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn

ystod 2023/24, lansiodd SUSOC ymweliadau cymorth nawdd rheolaidd ar gyfer astudiaethau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil. Cymerodd y Swyddog Llywodraethu Meinweoedd Dynol ran ym mhob un o'r ymweliadau hyn a oedd yn ymwneud â meinweoedd dynol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol. Ychwanegwyd pum unigolyn dynodedig newydd at drwydded yr HTA er mwyn cynorthwyo'r Unigolyn Dynodedig a'r Swyddog Llywodraethu Meinweoedd Dynol i sicrhau cydymffurfiaeth. Cynhyrchwyd arwyddion newydd ar gyfer rhewgelloedd tymheredd isel iawn (ULT) mewn sawl adeilad ar y campws. Ym mis Mehefin, cynhaliodd y Brifysgol seminar ynghylch Meinweoedd Dynol mewn Ymchwil a Biofancio Cynaliadwy. Arweiniodd hyn at lefel uwch o gyfranogiad gan ymchwilwyr, ymwybyddiaeth uwch o'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol craidd newydd, a newid polisi i newid tymheredd rhewgelloedd ULT o -80˚C i -70°C gan wella cynaliadwyedd a lleihau costau ynni. Sefydlwyd grŵp defnyddwyr newydd ar Teams i ddarparu hyb canolog hawdd ei gyrchu ar gyfer staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwil gyda meinweoedd dynol. Mae'r safle hwn yn galluogi staff a myfyrwyr i lanlwytho eu cynlluniau wrth gefn, adolygu darllen llawlyfr diweddaraf yr HTA, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol a ffurflenni. Mae hefyd yn rhoi mynediad at ddogfennau sy'n sensitif o ran diogelwch nad oes modd eu cynnwys ar y wefan gyhoeddus. Mae defnyddio sianeli preifat i lanlwytho ffeiliau ar gyfer casgliadau trwyddedig yn darparu goruchwyliaeth uniongyrchol.

8. Ymchwil gydag anifeiliaid: Mae AWERB Prifysgol Abertawe'n parhau i adolygu'r holl weithgareddau ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid gwarchodedig (yn unol â diffiniad y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) ac sy'n cynnwys ymyrryd (h.y. cipio, trin, cyswllt a/neu gyfyngu). Mae hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) (ASPA) ac yn darparu sicrwydd i'r sefydliad bod proses ar waith i atal gweithgarwch heb ei awdurdodi. Mae'r AWERB yn cwrdd yn rheolaidd i drafod unrhyw drwyddedau prosiect sydd yn yr arfaeth y mae angen eu hadolygu, unrhyw ddiweddariadau a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref a gweithgareddau presennol yn y sefydliad. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys deiliad trwydded y sefydliad, yr unigolion a enwyd, aelod lleyg ac arbenigwyr academaidd o'r cyfadrannau perthnasol. Yn ystod 2023-24, arolygwyd AWERB ar ddau achlysur gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Swyddfa Gartref. Roedd y ddau arolygiad yn llwyddiannus iawn, ac ni chodwyd unrhyw faterion cydymffurfiaeth.

9. Diweddariadau'r Cyfadrannau:

- Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg: Yn ystod 2023-24, mae'r

Gyfadran wedi diweddaru ei phorth Canvas i gynnwys yr holl wybodaeth gyswllt a dolenni i wefan y Gyfadran. Cafodd cofnodion cyfarfodydd pwyllgor moeseg y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg eu lanlwytho hefyd. Mae rhagor o fanylion ar gael ar y wefan https://www.swansea.ac.uk/cy/gwyddoniaeth-a-pheirianneg/ymchwil/moeseg/ Mae'r wefan yn cysylltu ymgeiswyr â'r system foeseg, yn darparu dolenni i adnoddau allanol ac yn darparu gwybodaeth ychwanegol am gylch gorchwyl y pwyllgor a'r broses ar gyfer cyflwyno cais am gymeradwyaeth foesegol.

- Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol: Datblygodd y Gyfadran fodiwl penodol ar Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil ar hyb ymchwil y Gyfadran ar Canvas: https://www.swansea.ac.uk/cy/dyniaethau-a-gwyddoraucymdeithasol/moeseg-ymchwil/

Treialodd y Gyfadran system ar gyfer prosesu ceisiadau risg isel drwy Infonetica o fewn saith niwrnod yn y Gyfadran. Mae hyn wedi cyflymu pethau rywfaint.

- Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd: Mae'r system asesiad moesegol ar-lein (Infonetica) wedi sicrhau bod cyfathrebu ac ymgysylltu'n dryloyw ar draws y Brifysgol. Mae'r holl brosiectau ymchwil bellach yn cael eu sgrinio am foeseg yn yr un modd.

## 2C. Sylwadau am gynnydd a chynlluniau ar gyfer datblygiadau'r dyfodol

- Polisi a Phrosesau Dilysrwydd Dyladwy ac Ymchwil Ddibynadwy: Mae'r Brifysgol wedi llunio canllawiau ar ddilysrwydd dyladwy ac ymchwil ddibynadwy. Mae'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth wedi cydnabod bod angen prosesau a pholisïau cadarn yn y maes hwn ac ystyrir trafodaeth i gryfhau'r maes hwn a'i ofynion yn 2024-25 drwy'r ymarfer i ailgynllunio'r gwasanaethau proffesiynol.
- Monitro ymchwil risg uchel: Cytunir ar broses fonitro ar gyfer yr holl ymchwil risg uchel gan ddefnyddio'r system asesiad moesegol ar-lein a chaiff ei sefydlu yn ystod 2024/25.
- Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil: Mae'r Brifysgol yn ystyried opsiynau hyfforddiant uniondeb ymchwil ar gyfer staff a myfyrwyr ac yn trafod y ffyrdd gorau posib o ddarparu hyn o fewn cyfyngiadau cyllidebol.

- Arweiniad ar AI Cynhyrchiol mewn Ymchwil ac Arloesi: Mae'r ymatebion gan y grŵp gorchwyl a gorffen ar AI Cynhyrchiol mewn ymchwil ac arloesi wedi cael eu coladu ac mae canllawiau'n cael eu llunio i'w cymeradwyo yn 2024-25.

- Meinweoedd Dynol: Gan edrych i'r dyfodol, bydd Adran Gwyddor Chwaraeon Adeilad Dwyreiniol Peirianneg yn cael ei hychwanegu'n swyddogol fel safle ategol newydd ar drwydded HTA y Brifysgol, gan ddilyn y prosesau cydymffurfiaeth a sefydlwyd ar gyfer yr Ysgol Feddygaeth, sy'n parhau fel safle Hyb. Mae'r gwaith o gyflwyno arwyddion newydd ar gyfer cynwysyddion Dewar nitrogen hylif yn ILS1 a rhewgelloedd ULT yn ILS2 yn parhau, a bwriedir darparu arwyddion ychwanegol ar gyfer cynwysyddion Dewar yn y dyfodol agos. Mae'r broses dendro LMS ar ffurf drafft o hyd ond rhagwelir y bydd yn gwella cydymffurfiaeth ac olrhain samplau'n sylweddol pan fydd wedi'i chwblhau. Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys ychwanegu sianeli preifat at y grŵp defnyddwyr newydd ar Teams a chreu ffeiliau safle digidol ar gyfer casgliadau trwyddedig hanesyddol.

- Datblygiadau'r dyfodol yn y tair Cyfadran (2024-25): Cyfarfu Arweinwyr Moeseg y Cyfadrannau, ynghyd â'r Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a'r Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol Addysg i drafod datblygu system a pholisi ar gyfer prosiectau a gyflwynir i'w marcio ar draws y Brifysgol nad oes ganddynt gymeradwyaeth foesegol. Byddai'r polisi hwn yn amlinellu sut y dylid ymdrin â phrosiectau o'r fath er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder ar draws y Brifysgol. Byddai system i fonitro prosiectau o'r fath y gall fod angen cymeradwyaeth foesegol arnynt, neu efallai na fyddai angen cymeradwyaeth arnynt, yn cael ei datblygu ar ôl trafodaethau â thîm Ansawdd a Systemau'r Brifysgol. Wedyn byddai'r cymeradwyaethau perthnasol ar gael i farcwyr a fyddai'n gallu canfod a roddwyd cymeradwyaeth foesegol.

## Adran 3: Ymdrin â chamymddygiad mewn ymchwil

**3A. Datganiad ar brosesau sydd ar waith yn y sefydliad i ymdrin â honiadau o gamymddygiad**

- Mae gan y Brifysgol bolisi ar ymdrin â honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil sydd ar gael drwy dudalennau gwe Uniondeb Ymchwil y Brifysgol. Camymddygiad mewn Ymchwil - Prifysgol Abertawe

- Gall unrhyw un sydd am wneud cwyn ynghylch arferion ymchwil amhriodol

ddefnyddio cyfeiriad e-bost cyfrinachol: researchmisconduct@abertawe.ac.uk

- Y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) yw'r 'cyswllt a enwir' i dderbyn honiad ar ran y Brifysgol.
- Mae Arweinwyr Moeseg y Cyfadrannau hefyd yn gweithio fel Ymgynghorwyr Uniondeb Ymchwil ac yn helpu i ymdrin ag ymholiadau ac yn darparu cymorth i ymchwilwyr yn y Cyfadrannau.

| **3B. Gwybodaeth am ymchwiliadau a gynhaliwyd i gamymddygiad ymchwil**<br><br>Cwblhewch y tabl am nifer yr **ymchwiliadau ffurfiol a gwblhawyd yn ystod cyfnod yr adolygiad** (gan gynnwys ymchwiliadau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn ond a ddechreuodd mewn blwyddyn academaidd flaenorol). Ni ddylid cyflwyno gwybodaeth o ymchwiliadau sydd heb eu cwblhau.<br><br>Gall gweithdrefn sefydliad gynnwys cam cychwynnol, rhagarweiniol neu sgrinio i benderfynu a oes angen cwblhau ymchwiliad ffurfiol. Dylid cynnwys yr honiadau hyn yn y golofn gyntaf ond dim ond y rhai a aeth ymhellach na'r cam hwn, i ymchwiliadau ffurfiol, y dylid eu cynnwys yn yr ail golofn. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Math o honiad** | **Nifer yr honiadau** | | | |
| | **Nifer yr honiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r sefydliad** | **Nifer yr ymchwiliadau ffurfiol** | **Nifer a gadarnhawyd yn rhannol yn dilyn ymchwiliad ffurfiol** | **Nifer a gadarnhawyd yn llawn yn dilyn ymchwiliad ffurfiol** |
| Anwiredd | 1 | Dim ymchwiliad ffurfiol | | |
| Ffugio | | Dim ymchwiliad ffurfiol | | |
| Llên-ladrad | 1 | Dim ymchwiliad ffurfiol | | |
| Methiant i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol | | | | |
| Camliwiad (e.e. data; cyfranogiad; buddiannau; cymwysterau; a/neu hanes cyhoeddi) | 2 | Dim ymchwiliad ffurfiol | | |
| Ymdrin yn amhriodol â honiadau o gamymddygiad | | | | |
| Sawl maes pryder | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| (pan gânt eu derbyn mewn un honiad) | | | | |
| *Arall** | 1 | | | |
| **Cyfanswm:** | | | | |
| ***Os gwnaethoch restru unrhyw honiadau yn y categori 'Arall' rhowch grynodeb lefel uchel o'u math yma. Peidiwch â rhoi gwybodaeth adnabyddadwy neu gyfrinachol wrth ymateb.** | | | | |
| 1. Anghydfod ynghylch awduraeth (Categori: Arall) | | | | |